- Pa frechlynnau a yw pobl yn gallu eu cael yno?
  Ein nod yw cyflenwi'r holl frechiadau, ond byddem yn argymell cysylltu â'n canolfan trefnu apwyntiadau a ffonio ymlaen llaw i wirio p'un a yw'r brechiad sydd ei angen arnoch mewn stoc.

- Pwy sy'n gallu mynd yno - pobl gymwys neu unrhyw un?
  Gall unrhyw un alw heibio ein canolfan i dderbyn arweiniad a chyngor yn ymwneud â'r holl frechiadau. Gall staff yn y ganolfan frechu wirio eich cofnod o frechlynnau ac efallai y bydd cleifion cymwys yn gallu derbyn brechiad gan ddibynnu ar argaeledd.

- A yw pobl yn gallu gofyn i'w brechiadau gael eu rhoi yno os byddant yn eu cael yn rhywle arall fel arfer?
  Gofynnwn i chi gadw at unrhyw apwyntiadau brechu sydd wedi'u trefnu eisoes gyda'n gwasanaethau sefydledig, Meddygfeydd, Fferyllfeydd, Tîm Brechiadau Nyrsio Ysgol ac ati. Fodd bynnag, os hoffech gael eich brechlyn yn y ganolfan, gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi gwybod iddynt a'ch bod yn canslo eich apwyntiad sydd wedi'i drefnu ymlaen llaw. Yna, gallwch ffonio ein canolfan trefnu apwyntiadau neu alw heibio'r Ganolfan Frechu er mwyn derbyn eich brechiad.

- A yw'n cynnwys brechiadau teithio?
  Nac ydy

- A fydd brechlynnau penodol ar gael ar ddiwrnodau penodol?
  Ein nod yw sicrhau bod yr holl frechlynnau mewn stoc ar bob diwrnod ond rydym yn eich cynghori i gysylltu â'n canolfan trefnu apwyntiadau ymlaen llaw lle bo'n bosibl.

- Pam y dewiswyd y lleoliad hwn?
  Dewiswyd Canol Tref Cwmbrân gan mai dyma'r man mwyaf canolog yn y Bwrdd Iechyd, ac yn ogystal, mae trafnidiaeth gyhoeddus a pharcio'n rhad ac am ddim ar gael.

- A yw hyn yn disodli'r gwasanaethau brechu mewn rhannau eraill o Went?
  Ni fydd gwasanaethau'r ganolfan hon yn disodli'r gwasanaethau sefydledig presennol, gofynnwn i chi gadw at unrhyw apwyntiadau a roddwyd i chi gan Feddygon Teulu, Fferyllfeydd, y Tîm Brechiadau Nyrsio Ysgol ac ati.